



Dinasoedd, trefi ac ardaloedd y DU yn sefyll dros ymddygiad cyfrifol mewn perthynas â threthi

Rydym yn cydnabod bod:

Talu treth yn aml yn cael ei gyflwyno fel baich, ond nid felly y dylai fod. Yn enwedig pan gaiff ei hystyried yn erbyn y lluo o wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu hariannu ganddi – o addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, i amddiffyn rhag llifogydd, ffyrdd, plismona ac amddiffyn. Mae hefyd yn helpu i unioni anghydraddoldebau ariannol ac ail-gydbwysu economïau gwyrngam.

Nid yw'r pwysau ar sefydliadau i dalu'r swm cywir o dreth yn y lle cywir ac ar yr amser cywir erioed wedi bod cyn gryfed. Er enghraifft, yn ôl polau gan y Sefydliad Moesau Busnes, ers 2013 mae "osgoi treth gorfforaeth" wedi bod yn brif bryder y cyhoedd ym Mhrydain o ran ymddygiad busnesau.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae CThEM wedi gwneud cryn dipyn i fynd i'r afael ag osgoi ac efnid trethi – ond creda nifer o bobl yn y mudiad cyfiawnder trethi bod llawer mwy i'w wneud eto. Amcangyfrifwyd yn geidwadol y gallai colledion o symud elw amlwladol (un ffurf ar osgoi treth) gostio oddeutu £7bn y flwyddyn i'r DU mewn colledion refeniw y dreth gorfforaethol.

A hwythau'n derbyn symiau sylweddol o gyllid cyhoeddus, dylai bwrdeistrefi fod yn esiampl dda, flaenllaw mewn perthynas â thalu trethi; boed hynny drwy sicrhau bod contractwyr yn talu eu cyfran briodol o dreth, neu drwy wrthod defnyddio llochesi treth tramor wrth brynu tir ac eiddo.

Pan mae gan fentrau preifat arian sylweddol, yna dylid meddu ar ddylanwad i sicrhau bod busnesau o'r fath yn esiamplau da o dryloywder mewn perthynas â thalu trethi ac y cedwir draw oddi wrth osgoi trethi – e.e., peidio â defnyddio cynlluniau a farchnetir sy'n gofyn datgeliad dan reoliadau DOTAS (Datgelu Cynlluniau Osgoi Trethi) neu drefniadau a allai dorri'r Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd. Mae'r Marc Fair Tax yn cynnig ffordd i fusnesau arddangos ymddygiad da mewn perthynas â thalu trethi, ac mae wedi'i sicrhau gan sefydliadau sydd ag incwm blynyddol cyfunol o £50bn a mwy na 6,500 o allfeydd a safleoedd. Mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol oedd arloeswyr cyntaf y Marc Fair Tax, ac maent yn cyd-fynd yn dda â mynd ar drywydd gwerth cymdeithasol o ran caffael gyhoeddus.

Mewn polau diweddar, mae bron i ddau draean (63%) o'r cyhoedd yn cytuno y dylai'r Llywodraeth a chynghorau lleol ystyried moesau cwmni a sut maent yn talu eu treth yn ogystal â gwerth am arian ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, wrth gynnal gweithgareddau caffael. Ar yr un pryd, canfu ymchwil bod cwmnïau sydd â chysylltiadau â llochesi treth wedi ennill 17.5% o gytundebau cyhoeddus yn y DU. Mae angen mwy o weithredu, ond mae'r gyfraith gyfredol yn rhoi cyfyngiadau sylweddol ar allu cynghorau i naill ai cosbi ymddygiad gwael mewn perthynas â thalu trethi neu wobrwyo ymddygiad da mewn perthynas â thalu trethi, wrth brynu nwyddau neu wasanaethau.

Gall dinasoedd, siroedd a threfi'r DU sefyll dros ymddygiad cyfrifol mewn perthynas â threthi, a dylent wneud hynny – gwneud yr hyn a allant o fewn fframweithiau cyfredol a gwneud addewid i wneud mwy petaent yn cael y cyfle, fel cefnogwyr gweithredol cyfiawnder trethi yn rhyngwladol.

Rydym yn gwneud addewid i:

1. Gytuno ar ddatrysiad yn cymeradwyo'r Cynghorau am Ddatganiad Fair Tax.
2. Arwain drwy esiampl ac arddangos arfer dda yn ein hymddygiad mewn perthynas â threthi, ar draws ein holl weithgareddau. Gan gynnwys:
 - Sicrhau bod contractwyr yn gweithredu IR35 yn gadarn a bod cyfran deg o drethi cyflogaeth yn cael eu talu.
 - Osgoi'r defnydd o lochesi tramor i brynu tir ac eiddo, yn enwedig pan mae hyn yn arwain at daliadau gostyngedig o'r dreth stamp.
 - Ymgymryd â diwydrwydd dyledus i sicrhau nad yw strwythurau nad ydynt er elw yn cael eu defnyddio'n amhriodol fel dyfais artiffisial i leihau'r taliadau treth ac ardrethi busnes.
 - Sicrhau bod eglurder ynghylch perchnogaeth lesiannol derfynol cyflenwyr a'u sefyllfa elw a cholled gyfnerthedig, gan ystyried y gallai diffyg eglurder fod yn ddangosyddion cryf o gywirdeb ariannol gwael a sefyllfa ariannol wan.
3. Hyrwyddo ardystiad Marc Fair Tax i unrhyw fusnes y mae gennym gyfran sylweddol ynddi a lle mae treth gorfforaeth yn ddyledus.
4. Ymuno â digwyddiadau Wythnos Fair Tax yn yr ardal, a'u cefnogi, a dathlu'r cyfraniad trethol a wneir gan fusnesau cyfrifol sy'n ymfalchïo yn yr hyn maent yn ei dalu.
5. Cefnogi galwadau am ddiwygio cyfraith yr UE a'r DU fel mater o frys i alluogi bwrdeistrefi i adolygu eu polisiâu caffael a chosbi yn well ymddygiad gwael mewn perthynas â threthi a gwobrwyo ymddygiad da mewn perthynas â threthi.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Fair Tax Foundation.

E-bost: local@fairtaxmark.net.

Ffôn: (0161) 250 6595.

Gwefan: www.fairtaxmark.net/councils-for-fair-tax/

Post: Fair Tax Foundation, Unit 21, 41 Old Birley Street, Manchester, M15 5RF

Lansiwyd cynllun ardystio'r Marc Fair Tax ym mis Chwefror 2014 ac mae'n ceisio annog ac adnabod sefydliadau sy'n talu'r swm cywir o dreth gorfforaeth ar yr amser cywir ac yn y lle cywir. Mae cyfraniadau treth yn rhan allweddol o'r cyfraniad cymdeithasol ac economaidd ehangach a wneir gan fusnesau, gan helpu'r gymuned y gweithredant ynddi i gyflawni gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr a datblygu'r seilwaith sy'n sefydlu'r llwybr at dwf. Mae mwy na chwe deg o fusnesau wedi'u hardystio bellach, gan gynnwys cwmnïau cyhoeddus ar y rhestr FTSE, cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a busnesau mawr preifat – sydd rhyngddynt yn meddu ar dros 7,000 o swyddfydd ac allfeydd. Rydym yn gweithredu fel cymdeithas budd cymunedol nad yw er elw a chredwn y dylid dathlu unrhyw gwmni sy'n talu trethi'n gyfrifol, ac osgoi unrhyw ras i'r gwaelod.